

Adolygiad o'r Gwasanaeth Cynllunio – Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Blwyddyn archwilio: 2024-25

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2025

Cyfeirnod y ddogfen: 4897A2025

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful fel rhan o'r gwaith a wneir/sydd i'w wneud yn unol ag Adran 17(2)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn eu rhinwedd unigol, nac i unrhyw drydydd parti.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Mae gwendidau yng ngoruchwyliaeth gorfforaethol a llywodraethu'r Gwasanaeth Cynllunio ac o ganlyniad, mae diffyg ymwybyddiaeth o sut mae'r gwasanaeth yn cefnogi cyflawni amcanion y Cyngor

Adroddiad cryno

Beth wnaethom ei adolygu a pham 4

Yr hyn a ganfuom 4

Adroddiad manwl

Nid oes gan y Gwasanaethau Cynllunio gynllun gwasanaeth cynhwysfawr i lunio ei ddarpariaeth a nodi sut mae'n cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion 5

Mae timau'n cael eu cefnogi'n dda ac yn glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau, ond mae cynllunio gweithlu cyfyngedig yn creu risgiau i'w gwytnwch yn y dyfodol 5

Nid yw'r Pwyllgor Cynllunio, Rheoleiddio a Thrwyddedu bob amser yn gweithredu mewn ffordd dryloyw 6

Nid oes gan y Cyngor oruchwyliaeth gorfforaethol o'r Gwasanaeth Cynllunio i asesu a yw'n cael unrhyw effaith nac i reoli ei risgiau 8

Argymhellion 10

Atodiadau

Atodiad 1 – Cwestiynau archwilio a meini prawf archwilio 11

Adroddiad cryno

Beth wnaethom ei adolygu a pham

- 1 Ein nod ar gyfer yr archwiliad hwn oedd cael sicrwydd ynghylch a oes gan y Gwasanaeth Cynllunio drefniadau priodol i ddarparu gwerth am arian yn ei ddefnydd o adnoddau.
- 2 Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar adolygiadau dogfennau, sylwadau cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a chyfweiliadau gydag aelodau etholedig a swyddogion. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i lywio ein canfyddiadau wedi'i gyfyngu i'r ffynonellau hyn.
- 3 Fe wnaethom edrych ar Reoli Datblygu, Gorfodi Cynllunio a Pholisi Cynllunio. Ni wnaethom edrych ar Wasanaethau Rheoli Adeiladu na phenderfyniadau cynllunio unigol.
- 4 Aethom ati i ateb y cwestiwn **'A yw'r Gwasanaeth Cynllunio yn dangos trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian yn y defnydd o'i adnoddau?'**
- 5 Gwnaethom hyn trwy archwilio'r cwestiynau canlynol:
 - A yw'r Gwasanaeth Cynllunio yn cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei Amcanion Llesiant?
 - A oes gan y Gwasanaeth Cynllunio amcanion wedi'u halinio â blaenoriaethau strategol corfforaethol?
 - A oes gan y Gwasanaeth Cynllunio rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir y cedwir atynt?
 - A yw'r Cyngor yn adolygu ac yn monitro perfformiad ac effeithiolrwydd trefniadau ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio?
- 6 Mae **Atodiad 1** yn nodi'r cwestiynau manwl yr ydym yn bwriadu eu hateb ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i ddod i'n canfyddiadau.
- 7 Gwnaethom gynnal yr adolygiad yn ystod y cyfnod Rhagfyr 2024 i Chwefror 2025.

Yr hyn a ganfuom

- 8 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: **A yw'r Gwasanaeth Cynllunio yn dangos trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?**
- 9 Yn gyffredinol, gwelsom fod: **Gwendidau yng ngoruchwyliaeth a llywodraethu'r Gwasanaeth Cynllunio ac o ganlyniad, mae diffyg ymwybyddiaeth o sut mae'r gwasanaeth yn cefnogi cyflawni amcanion y Cyngor.**

Adroddiad manwl

Nid oes gan y Gwasanaeth Cynllunio gynllun gwasanaeth cynhwysfawr i lunio ei ddarpariaeth a nodi sut mae'n cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion

- 10 Nid yw'r Cyngor wedi datblygu Cynllun Gwasanaeth Cynllunio a Rheoli Adeiladu (Cynllun Gwasanaeth) cynhwysfawr y gellir ei ddefnyddio. Mae'r Cynllun Gwasanaeth presennol yn wasgaredig ac nid oes manylion perthnasol. Dylai'r Cynllun Gwasanaeth amlinellu:
 - sut y bydd gweithgareddau yn helpu'r Cyngor i gyflawni'r amcanion Llesiant Corfforaethol;
 - blaenoriaethau allweddol a sut y bydd y gwasanaeth yn rheoli cyllidebau ac adnoddau i'w cyflawni;
 - cerrig milltir neu dargedau i fesur perfformiad y gwasanaeth; a
 - risgiau a heriau a sut fyddent yn mynd i'r afael â nhw.
- 11 Mae diffyg eglurder a sicrwydd i staff, Cynghorwyr a'r cyhoedd ynglŷn â sut mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn cyfrannu at Gynllun Llesiant Corfforaethol 2023-28. (**Argymhelliad 1**). Nid yw'n glir sut mae'r Cyngor yn cysylltu trefniadau gweithredol, cyfarwyddiaeth a strategol trwy 'edau euraidd'. Nid oes unrhyw gyfeiriad yng Nghynllun Llesiant Corfforaethol y Cyngor at y Gwasanaeth Cynllunio, ei waith, na'r gyfarwyddiaeth ehangach i ddangos sut mae'r gwasanaeth yn helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion.
- 12 Mae hwn yn gyfle a gollwyd i amlinellu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Gwasanaeth Cynllunio. Gallai hyn gynnwys sut mae'r gwasanaeth yn gweithio i wella bioamrywiaeth ar gynllunio datblygiadau sy'n cyfrannu at yr Amcan Llesiant Glân a Gwyrdd.

Mae timau'n cael eu cefnogi'n dda ac yn glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau, ond mae cynllunio gweithlu cyfyngedig yn creu risgiau i'w gwytnwch yn y dyfodol

- 13 Fe wnaethom ganfod fod y gwasanaeth Cynllunio yn cael ei ddarparu gan dîm cydlynol a galluog sy'n gweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae'r tîm yn dangos ymwybyddiaeth dda o'r pwysau presennol sy'n wynebu'r gwasanaeth. Mae'r timau Polisi Rheoli Datblygu a Chynllunio yn glir ar eu rolau gweithredol a'u cyfrifoldebau.
- 14 Mae proses ddigidol glir ar gyfer derbyn ceisiadau cynllunio i'r gwasanaeth. Mae staff yn teimlo bod llwythi achosion presennol yn cael eu rheoli, ac mae'r tîm yn ddigon ystwyth i symud ceisiadau o gwmpas i gydbwyso llwyth gwaith. Mae system

ddigidol y Cyngor yn sicrhau bod y tîm yn cael goruchwyliaeth dda o gynnydd ceisiadau.

15 Mae diwylliant cefnogol o fewn y Gwasanaeth Cynllunio. Mae hyn yn cael ei ategu gan:

- cyfathrebu wyneb yn wyneb rheolaidd.
- cyfarfodydd tîm wythnosol lle mae trafodaethau agored a gonest am geisiadau cynllunio. Defnyddir penderfyniadau apêl cynllunio fel sail ar gyfer trafodaeth mewn cyfarfodydd tîm fel cyfleoedd dysgu.
- trafodaethau agored am gapasiti fel y gall staff gael cymorth gan y tîm ehangach lle bo angen.
- sesiynau unigol misol ar gyfer staff ym maes Rheoli Datblygu, Gorfodi a Thechnegwyr. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, trafodir ceisiadau cynllunio a hyfforddiant.
- mynediad at hyfforddiant a chefnogaeth. Mae cyllideb hyfforddi fach ar gael. Roedd staff yn teimlo y gallent gael mynediad at hyfforddiant i hyrwyddo eu datblygiad proffesiynol os oes angen. Anogir staff i fynychu gweminarau a chysiau hyfforddi.
- dull cydweithredol o weithio gyda staff mewn Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill i rannu arfer gorau a gofyn cwestiynau.
- adolygiad blynyddol o amcanion staff ac adolygiadau interim chwe mis. Fodd bynnag, nid oes unrhyw fecanwaith ar gyfer asesu effaith unigol neu gyfunol gweithgaredd y staff.

16 Fe wnaeth y Gwasanaeth Cynllunio ailstrwythuro yn ddiweddar a chlywsom ei fod wedi creu amgylchedd gwaith cefnogol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi colli cyfleoedd i ddangos ei gymysgedd sgiliau a'i wytnwch. Er enghraifft, mae gan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdogaeth gynllun gweithlu sy'n cynnwys Polisi Rheoli a Chynllunio Datblygu. Mae'r Cynllun wedi'i ddatblygu o fewn y templed corfforaethol, ond mae'n anghyflawn ac nid oes ganddo fanylion perthnasol. Mae'n cynnwys manylion am ddemograffeg staff gan gynnwys oedran ymddeol, ond mae rhannau sylweddol o'r adran asesu gallu yn wag. Dylai hyn ddangos dyletswyddau allweddol yn erbyn pob rôl swydd, a oes gan yr unigolyn sgiliau critigol a fyddai'n peri risg i'r gwasanaeth pe byddent yn gadael, a chatau i baratoi ar gyfer cynllunio olyniaeth. Gall hyn fod yn ymwneud â nodi hyfforddiant neu uwchsgilio sydd ei angen.

17 Mae trefniadau ar gyfer deall galw a chapasiti o fewn Polisi Cynllunio yn fwy cadarn. Mabwysiadwyd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) presennol ym mis Ionawr 2020 ac mae'r gwaith yn dechrau yn 2026 i ddechrau CDLI Newydd. Mae cyllideb wedi'i neilltuo i gyfrif am y cynnydd yn y galw a ragwelir. Mae'r Cyngor wedi sefydlu gweithgor CDLI sydd â chyfnod gorchwyl clir.

Nid yw'r Pwyllgor Cynllunio, Rheoleiddio a Thrwyddedu bob amser yn gweithredu mewn ffordd dryloyw

- 18 Mae Cod Ymddygiad Cynllunio cyfredol a chynhwysfawr gan y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys rôl ac ymddygiad aelodau, sut a phryd y gellir trafod ceisiadau a beth yw ystyriaethau cynllunio perthnasol. Mae hon yn ddogfen ddefnyddiol, ond mae'n bodoli o fewn cyfansoddiad y Cyngor ac nid yw'n cael ei defnyddio'n weithredol a'i chyfeirio ati mewn cyfarfodydd pwyllgor cynllunio.
- 19 Nid yw'r Cylch Gorchwyl presennol ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, Rheoleiddio a Thrwyddedu (y Pwyllgor Cynllunio) yn diffinio cwmpas, amcanion a chyfrifoldebau'r pwyllgor yn glir. Byddai'r Cyngor yn elwa o ddatblygu'r Cylch Gorchwyl presennol yn seiliedig ar y Cod Ymddygiad Cynllunio ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio sy'n llywio rolau a chyfrifoldebau a thrafodaeth yn y pwyllgor. **(Argymhelliad 2)**
- 20 Mae gan y Cyngor gynllun clir o ddirprwyo o fewn cyfansoddiad y Cyngor. Mae hyn yn nodi pa benderfyniadau cynllunio y gall swyddogion eu gwneud, a pha benderfyniadau sydd angen mynd i'r Pwyllgor Cynllunio.
- 21 Yn unol â'r cyfansoddiad, gall Cynghorwyr ofyn yn ysgrifenedig o fewn y cyfnod ymgynghori 21 diwrnod y dylai'r Pwyllgor Cynllunio ystyried cais cynllunio dirprwyedig. Ond nid oes isafswm rheswm cynllunio materol y mae angen ei gyflawni er mwyn i hyn ddigwydd. Mae hyn yn peryglu bod unrhyw nifer o geisiadau cynllunio yn y dyfodol yn cael eu galw i'r Pwyllgor i'w hystyried heb isafswm rheswm cynllunio perthnasol. Ni fyddai hyn yn ddefnydd priodol o amser y Pwyllgor Cynllunio, Rheoleiddio a Thrwyddedu sy'n bodoli i ystyried ceisiadau strategol pwysig.
- 22 O sylwadau ein pwyllgor, mae gennym rai pryderon nad yw pob penderfyniad yn cael ei wneud mewn ffordd dryloyw ac nad ydynt yn unol â Chod Ymddygiad Cynllunio'r Cyngor:
- pan fydd gwahaniaethau barn yn digwydd rhwng swyddogion ac aelodau, mae wedi dod yn arferol i ohirio'r cyfarfod ac i aelodau drafod rhinweddau'r cais yn breifat cyn dychwelyd i'r cyfarfod i wneud penderfyniad.
 - nid yw'r Pwyllgor Cynllunio bob amser yn rhoi rhesymau cynllunio clir pam ei fod yn gwrthod cais.
 - nid yw'r rhesymau bob amser yn cael eu nodi'n glir a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod.
 - nid yw rhai penderfyniadau yn cael eu gwneud tan gyfarfod dilynol. Mae hyn yn ddryslyd i'r cyhoedd a'r ymgeiswyr. Mae hyn wedi bod yn wir mewn sawl trafodaeth cais Tai Amlfeddiannaeth.


- 23 Dylid trafod ceisiadau cynllunio yn agored a'u cofnodi'n gywir. **(Argymhelliad 3)**
Mae gweithredu a gwneud penderfyniadau yn agored yn un o saith egwyddor Nolan¹.
- 24 Gwelsom hefyd sawl trafodaeth pwyllgor ar geisiadau Tai Amlfeddiannaeth lle roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar feysydd nad oeddent yn berthnasol o safbwynt cynllunio. Ar adeg ein hadolygiad, nid oedd y pwyllgor wedi cymeradwyo un cais Tŷ Amlfeddiannaeth. Mae aelodau'r pwyllgor yn derbyn hyfforddiant sefydlu sylfaenol ar Dai Amlfeddiannaeth a materion cynllunio eraill, ond nid yw effaith yr hyfforddiant hwn bob amser yn glir wrth wneud penderfyniadau.

Nid oes gan y Cyngor oruchwyliaeth gorfforaethol o'r Gwasanaeth Cynllunio i asesu a yw'n cael unrhyw effaith nac i reoli ei risgiau

- 25 Mae'r Cyngor yn cyflwyno gwybodaeth am berfformiad am ei Wasanaeth Cynllunio i Lywodraeth Cymru yn ôl yr angen. Ond ar wahân i hyn nid oes ganddo offer i werthuso perfformiad ac effaith y Gwasanaeth.
- 26 Mae **Arddangosyn 1** isod yn dangos bod perfformiad wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar amser wedi bod yn eithaf sefydlog ar tua 90%, ac eithrio gostyngiad mewn perfformiad rhwng Ionawr a Mawrth 2024 lle gostyngodd perfformiad i 80%.

¹ Pwyllgor Llywodraeth y DU ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus, [Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus](#), Mai 1995

Arddangosyn 1: Canran y ceisiadau cynllunio a bennir o fewn amserlenni statudol a gytunwyd arnynt



Ffynhonnell: Ffurflenni chwarterol Rheoli Datblygu Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr i Lywodraeth Cymru, ac [arolygon chwarterol rheoli datblygu \(llyw.cymru\)](http://llyw.cymru)

- 27 Nid oes unrhyw adroddiadau perfformiad rheolaidd i aelodau sy'n cynnwys perfformiad statudol y gwasanaeth Rheoli Datblygu hyd yn oed. O ganlyniad, mae goruchwyliaeth ac ymwybyddiaeth gyfyngedig iawn o lwyddiant, heriau ac effaith y gwasanaeth Rheoli Datblygu ar unrhyw lefel strategol. Mae hyn yn adlewyrchu canfyddiadau yn ein [Adolygiad diweddar o Drefniadau Rheoli Perfformiad – Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful](#). Yn yr adolygiad hwnnw, gwelsom fod gwendidau yn nhrefniadau'r Cyngor i fonitro a herio perfformiad hefyd.
- 28 Mae gan y Cyngor wybodaeth fwy cynhwysfawr am berfformiad ar gael i alluogi goruchwyllo cynnydd y CDLI. Fodd bynnag, cyflwynwyd yr Adroddiad Monitro Blynnyddol 2023-24, sy'n adrodd yn erbyn y dangosyddion yn y CDLI, i'r Cabinet ym mis Ionawr 2025 er gwybodaeth yn unig ac ni chafodd unrhyw drafodaeth na her. Mae hyn er gwaethaf yr adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod cyflenwi tai cyffredinol wedi gostwng yn is na'r lefel sy'n ofynnol, gyda chwblhau dros 30% yn is nag y dylent fod. Roedd hwn yn gyfle a gollwyd i graffu ar wybodaeth bwysig.
- 29 Mae Cylch Gorchwyl y Cyngor ar gyfer y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdogaeth, Cefn Gwlad a Chynllunio yn dweud y dylai'r pwyllgor oruchwyllo Polisi Rheoli Datblygu a Chynllunio. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth bod y naill neu'r llall o'r rhain wedi ymddangos ar agenda'r Pwyllgor Craffu yn ystod y 12 mis diwethaf. Nid yw hyn yn unol â threfniadau'r Cyngor ei hun ac nid yw'n

caniatáu goruchwyliaeth ddigonol. Mae'n gwanhau gallu'r Cyngor i ddangos a yw'r gwasanaeth yn cyflawni gwerth am arian. **(Argymhelliaid 4)**

Argymhellion

Arddangosyn 2: argymhellion

Mae'r tabl isod yn nodi 'r argymhellion yr ydym wedi' u nodi yn dilyn yr adolygiad hwn.

Argymhellion	
Datblygu Cynllun Gwasanaeth Cynllunio a Rheoli Adeiladu	
A1	Dylai'r Gwasanaeth Cynllunio a Rheoli Adeiladu ddatblygu cynllun gwasanaeth a gweithlu cynhwysfawr. Dylai hyn fod â chysylltiadau clir â'r Cynllun Llesiant Corfforaethol a chynnwys targedau a cherrig milltir sy'n berthnasol i'r gwasanaeth.
Diweddaru'r Cylch Gorchwyl presennol ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, Rheoleiddio a Thrwyddedu	
A2	Dylai'r Cyngor ddiweddaru'r Cylch Gorchwyl presennol ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio, Rheoleiddio a Thrwyddedu yn seiliedig ar y Cod Ymddygiad Cynllunio. Dylid defnyddio hyn i ategu rolau a chyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau yn y Pwyllgor.
Gwneud penderfyniadau tryloyw	
A3	Dylai'r Pwyllgor Cynllunio, Rheoleiddio a Thrwyddedu ymgymryd â gwneud penderfyniadau yn dryloyw ac yn gyhoeddus yn unol â chanllawiau a deddfwriaeth berthnasol.
Adrodd a Goruchwyllo	
A4	Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn adrodd, monitro a goruchwyllo gweithgaredd y Gwasanaeth Cynllunio a Rheoli Adeiladu. Dylai hyn gael ei ategu gan wybodaeth berfformiad perthnasol a chyfredol.

Atodiad 1

Cwestiynau a meini prawf archwilio

Isod mae'r cwestiynau yr ydym yn ceisio eu hateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i ddod i'n canfyddiadau.

Prif gwestiwn yr archwiliad: **A yw'r Gwasanaeth Cynllunio yn dangos trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau?**

Arddangosyn 3: cwestiynau yr archwiliad a meini prawf archwilio

Cwestiynau Lefel 2	Meini prawf
1. A oes gan y Gwasanaeth Cynllunio amcanion wedi'u halinio â blaenoriaethau strategol corfforaethol?	- Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio gynllun busnes (neu gyfwerth) gydag amcanion perthnasol sy'n cael eu deall gan y rhai sy'n ymwneud â'r Gwasanaeth Cynllunio. - Mae amcanion y Cynllun Datblygu Lleol yn cael eu hintegreiddio i ddarparu Gwasanaethau Cynllunio. - Mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi nodi mesurau sy'n adlewyrchu effeithiau tymor byr a hirdymor, gyda cherrig milltir sy'n adlewyrchu cynnydd fel y bo'n briodol. - Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio gyfathrebu mewnol effeithiol gan gynnwys cyfarfodydd tîm rheolaidd o fewn y gwasanaeth a gyda'i bartneriaid. - Mae diwylliant cefnogol i fynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethau barn broffesiynol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ac achosion gorfodi cynllunio.

Cwestiynau Lefel 2	Meini prawf
	- Mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi nodi sut y bydd cynlluniau busnes y gwasanaeth ag adnoddau dros y tymor canolig i'r tymor hwy cyn belled ag y mae'n ymarferol (e.e. cynlluniau i gefnogi datblygiadau fel Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol ac ati). - Mae'r Gwasanaeth Cynllunio wedi'i integreiddio a'i gydnabod fel galluogwr allweddol i gefnogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion corfforaethol.
2. A oes gan y Gwasanaeth Cynllunio rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir?	- Mae cylch gwaith clir ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio. - Mae aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a staff cynllunio yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth briodol i ddeall amcanion y gwasanaeth, polisiau cynllunio, rôl aelod o'r pwyllgor a threfniadau gweithdrefnol y pwyllgor. - Mae gan y Cyngor brotocol pwyllgor cynllunio (neu gyfwerth) sy'n cynnwys cod ymddygiad a threfniadau gweithdrefnol pwyllgor cynllunio. - Mae gan y Cyngor gynllun dirprwyo clir a thryloyw sy'n cael ei gadw ato. - Mae yna fecanweithiau priodol i fynd i'r afael ag unrhyw dorri protocolau neu wahaniaethau barn broffesiynol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ac achosion gorfodi cynllunio. - Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio brosesau clir a thryloyw ar gyfer derbyn a phenderfynu ar geisiadau cynllunio, y gellir eu cyrchu'n hawdd gan y cyhoedd. - Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio gytundeb clir gyda phartneriaid sy'n diffinio rolau a chyfrifoldebau i'r Cyngor.
3. A yw'r Cyngor yn adolygu ac yn monitro perfformiad ac effeithiolrwydd trefniadau ar gyfer y Gwasanaeth Cynllunio?	- Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn dangos sut mae'n cynnwys staff a phartneriaid allweddol wrth gynllunio darparu gwasanaethau yn y dyfodol. - Mae diwylliant cefnogol o ddysgu a datblygu i staff cynllunio ac Aelodau sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd. - Mae gan y Gwasanaeth Cynllunio a'r Pwyllgor Cynllunio, Rheoleiddio a Thrwyddedu ddiwylliant o ddatblygiad parhaus ac mae'n arsylwi arfer gorau gan Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill.

Cwestiynau Lefel 2	Meini prawf
	Mae digon o drefniadau i'r Gwasanaeth Cynllunio adrodd ei berfformiad yn erbyn ei amcanion i'r uwch reolwyr, yr Aelodau a'r cyhoedd gan ganiatáu goruchwyliaeth effeithiol.



Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: info@audit.wales

Gwefan: www.audit.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.